**Rebecca Evans AC/AM**
**Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd**
**Minister for Finance and Trefnydd**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref RE/53/19

Elin Jones AC
Llywydd
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CAERDYDD
CF99 1NA

10 Rhagfyr 2019

Annwyl Elin,

**Cyfnod 4 – Bil y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Indemniadau) (Cymru**

Hoffwn ofyn am eich caniatâd i symud at drafodion Cyfnod 4 ar y Bil uchod yn syth ar ôl i drafodion Cyfnod 3 ddod i ben ar 14 Ionawr 2020, yn unol â Rheol Sefydlog 26.48. Ers i'r Bil gael ei gyflwyno, mae'r Llywodraeth wedi datgan yn glir ei rhesymau dros geisio hwyluso gwaith craffu ar y Bil, sef ei bwriad, cyn gynted ag y bydd y Cydsyniad Brenhinol wedi'i roi, i gyflwyno rheoliadau sy'n sefydlu'r Cynllun Atebolrwyddau Presennol ar 1 Ebrill 2020. Bydd hyn yn sicrhau bod y cynllun yn cael ei sefydlu ar yr un pryd â chynllun Lloegr, ac na fydd Ymarferwyr Cyffredinol yng Nghymru o dan anfantais. Mae angen i'r cynnig i basio'r Bil gael ei drafod cyn gynted â phosibl fel bod modd cael y Cydsyniad Brenhinol mewn pryd i sicrhau bod gwaith craffu'r Cynulliad ar y Rheoliadau'n bodloni gofynion y Rheolau Sefydlog ac i sefydlu'r Cynllun yn unol â'r bwriad.

Cafodd y gwahaniad diofyn o bum niwrnod gwaith rhwng Cyfnodau 3 a 4 a nodir mewn Rheolau Sefydlog ei roi yn ei le i sicrhau bod yr Aelodau'n cael cyfle i ystyried y Bil fel y'i diwygiwyd yng Nghyfnod 3 cyn penderfynu a ddylid cytuno i'r Bil neu beidio. Fodd bynnag, mae'r Bil hwn yn fyr iawn ac yn gyfyngedig ei gwmpas, a dau welliant a gafwyd iddo yng Nghyfnod 2. Roedd y rhain yn ymwneud â chychwyn y Bil ac adolygu'r broses o'i weithredu, felly nid oes ymgais wedi'i gwneud i newid y cynnig polisi penodol. Rwy'n rhagweld y bydd trafodion Cyfnod 3 yn debyg iawn o ran eu graddfa, felly ychydig o wahaniaeth fydd rhwng y Bil cyn ac ar ôl y Cyfnod hwnnw i'r Aelodau ei ystyried.

Er bod Rheol Sefydlog 26.48 yn awgrymu y gellir symud y cynnig i gytuno ar y Bil heb rybudd, os byddwch yn cydsynio â'm cais byddaf yn cynnwys y cynnig yn y Datganiad Busnes erbyn 7 Ionawr fan bellaf ac yn cyflwyno'r cynnig cyn y ddadl. Byddai hyn yn rhoi digon o rybudd i'r Aelodau ystyried y gwelliannau a gyflwynwyd yng Nghyfnod 3 a phenderfynu a ddylid pasio'r Bil, ar sail a gytunir ar y gwelliannau hyn neu beidio.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Rwyf yn gobeithio eich bod yn gallu cydsynio â'm cais.

Yn gywir,

Rebecca Evans.

**Rebecca Evans AC/AM**
Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd
Minister for Finance and Trefnydd